YSTADEGAU SWYDDOGOL

Camymddwyn ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru: cyfres arholiadau Haf 2023

19 Rhagfyr 2023

Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegau swyddogol hwn yn cyflwyno ffigurau sy'n ymwneud â chosbau a roddwyd gan gyrff dyfarnu mewn ymateb i gamymddwyn gan fyfyrwyr, staff ysgolion neu golegau, ac ysgolion neu golegau yn ystod arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch cyfres arholiadau haf 2023 yng Nghymru, a'r troseddau y cawsant eu cyhoeddi ar eu cyfer.

Pwyntiau allweddol

Ffigur 1: Nifer y cosbau a roddwyd i fyfyrwyr



Ffynhonnell: Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru

Rhoddwyd 310 o gosbau i fyfyrwyr yn haf 2023, cynnydd o 31.9% ers 2022. Yn 2023, rhoddwyd tua un gosb am bob 3,500 o gofrestriadau.

Ffigur 2: Rhesymau dros gosbau myfyrwyr



Ffynhonnell: Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru

Ffonau symudol sy'n parhau i fod y rheswm mwyaf cyffredin dros roi cosb. Cafodd 42.3% o gosbau yn 2023 eu rhoi oherwydd bod myfyrwyr wedi mynd â ffôn symudol i'r ystafell arholiad, i lawr o 44.3% yn 2022.

Dolenni Cyflym

Camymddwyn gan fyfyrwyr
Mathau o gamymddwyn gan fyfyrwyr
Mathau o gosbau a roddwyd
Camymddwyn gan ganolfannau a staff canolfannau

Ystadegydd
Debbie Roberts 01633 373 292
ystadegau@cymwysterau.cymru
Ymholiadau gan y cyfryngau:
01633 373 222
cyfryngau@cymwysterau.cymru

Ystadegau

Camymddwyn gan Fyfyrwyr

A yw camymddwyn gan fyfyrwyr ar gynydd?

Ffigur 3: Nifer y cosbau a roddwyd i fyfyrwyr

Cyfres yr haf, 2018 i 2023



Ffynhonnell: Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru

Rhoddwyd 310 o gosbau i fyfyrwyr am gamymddwyn yn haf 2023. Mae hyn yn gynnydd o 31.9% o'i gymharu â'r 235 o gosbau a roddwyd yn 2022. Mae'r cosbau a gyhoeddwyd yn cynrychioli 0.029% o gofrestriadau, neu tua un gosb am bob 3,500 o gofrestriadau. Mae hyn yn gyfran uwch nag yn 2022, pan oedd tua un gosb i bob 4,200 o gofrestriadau. Er bod arholiadau'r haf wedi'u canslo yn 2020 a 2021, cafodd nifer fach o gosbau camymddwyn eu rhoi yn ymwneud ag asesiadau a gwblhawyd cyn arholiadau'r haf, yn ogystal ag asesiadau a ddefnyddiwyd i bennu graddau canolfan.

Ffigur 4: Nifer y cosbau a roddwyd i fyfyrwyr fel canran o gyfanswm y ceisiadau yn ôl lefel y cymhwyster

Cyfres yr haf, heb gynnwys blynyddoedd pan gafodd arholiadau'r haf eu canslo



Ffynhonnell: Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru

Yn ôl cyfran, cafodd mwy o gosbau eu rhoi yn ymwneud â TGAU nag UG a Safon Uwch. Er bod TGAU yn cyfrif am 84.1% o gyfanswm y cofrestriadau, roedd 94.2% o'r holl gosbau a roddwyd yn ymwneud â TGAU. Rhoddwyd 290 o gosbau yn ymwneud â TGAU, tua un gosb am bob 3,100 o gofrestriadau TGAU. Mae'r 20 cosb a roddwyd

ar gyfer asesiadau UG a Safon Uwch yn cynrychioli tua un gosb am bob 9,500 o gofrestriadau.

Ffigur 5: Nifer y cosbau a roddwyd fesul myfyriwr

Cyfres yr haf, 2018 i 2023



Ffynhonnell: Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru

Cafodd 300 o fyfyrwyr unigol gosbau am gamymddwyn yn 2023, o'i gymharu â 220 yn 2022. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gafodd gosb wedi cyflawni un drosedd ac wedi cael un gosb. Cyflawnodd deg myfyriwr ddwy drosedd a chael dwy gosb.

Beth yw'r math mwyaf cyffredin o gamymddwyn gan fyfyrwyr?

Ffigur 1: Cyfran y cosbau a roddwyd fesul categori camymddwyn

Cyfres yr haf, 2018 i 2023



Ffynhonnell: Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru

Ffonau symudol sy'n parhau i fod y rheswm mwyaf cyffredin dros roi cosb. Cafodd 42.3% o gosbau yn 2023 eu rhoi oherwydd bod myfyrwyr wedi mynd â ffôn symudol i'r ystafell arholiad, i lawr o 44.3% yn 2022. Ymddygiad sy'n tarfu ar eraill oedd yr ail drosedd fwyaf cyffredin y rhoddwyd cosb amdani, sef 16.8% o'r holl gosbau i fyfyrwyr. Mae'r categori deunyddiau heb eu hawdurdodi yn cynnwys nodiadau a chyfrifianellau. O 2022 ymlaen, mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys oriorau, ac

eithrio oriorau clyfar, yn dilyn y gwaharddiad ar oriorau mewn ystafelloedd arholiad o 1 Medi 2021. Mae oriorau clyfar wedi'u cynnwys yn y categori 'ffonau symudol'. Mae'r categori 'pob rheswm arall' yn cynnwys rhesymau fel llên-ladrad, deunyddiau amhriodol a methu cadw at yr amodau goruchwyliaeth a ddynodwyd i gynnal diogelwch yr arholiadau.

Beth yw'r math mwyaf cyffredin o gosb i fyfyrwyr?

Ffigur 7: Nifer y cosbau a roddwyd fesul math o gosb

Cyfres yr haf, 2018 i 2023



Ffynhonnell: Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru

Fel yn 2018, 2019 a 2022, colli marciau oedd y gosb fwyaf cyffredin a roddwyd yn haf 2023. Rhoddwyd 180 o gosbau colli marciau yn haf 2023, sy'n cynrychioli 58.7% o'r holl gosbau a roddwyd yn y gyfres arholiadau.

Mae nifer y rhybuddion gafodd eu rhoi yn 2023 yn debyg i'r llynedd ac yn parhau i fod yn uwch nag yn y blynyddoedd cyn y pandemig. Rhoddwyd 65 rhybudd yn haf 2023. Rhybuddion oedd y cosbau a roddwyd amlaf yn 2020 a'r unig gosbau a roddwyd yn 2021.

Rhoddwyd 60 cosb colli cyfle i gyfuno neu ardystio yn haf 2023. Cafodd mwy na deuddeg gwaith cymaint o'r cosbau hyn eu rhoi yn haf 2023 o'i gymharu â 2022, a tua ddwywaith cymaint ag a roddwyd yn 2019.

Ffigur 8: Mathau o gosbau a roddwyd i fyfyrwyr fesul categori camymddwyn

Haf 2023



Ffynhonnell: Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru

Yn haf 2023, colli marciau oedd y gosb a roddwyd amlaf ar draws pob categori camymddwyn. Rhybudd oedd y gosb fwyaf cyffredin am ddefnyddio deunyddiau amhriodol a deunyddiau eraill heb eu hawdurdodi. Rhoddwyd cosbau colli cyfle i gyfuno neu ardystio yn bennaf am gamymddwyn yn ymwneud â'r categori 'rhesymau eraill'.

Camymddwyn gan ysgolion neu golegau a staff

Pa mor gyffredin yw achosion o gamymddwyn gan ysgolion neu golegau a staff?

Gall ysgolion neu golegau ac aelodau o staff ysgolion neu golegau hefyd gyflawni troseddau camymddwyn. Mae enghreifftiau o'r math hwn o gamymddwyn yn cynnwys methu â chadw deunydd arholi'n ddiogel cyn arholiad, rhoi cymorth amhriodol i ymgeiswyr, a chamweinyddu. Os bydd hyn yn digwydd, gellir cosbi ysgol neu goleg a/neu aelodau o staff ysgol neu goleg. Nid yw camymddwyn nad yw wedi arwain at gosb neu sy'n dal i gael ei ymchwilio yn cael ei adrodd yn y datganiad hwn.

Tabl 2: Cyfanswm nifer y cosbau a roddwyd i ysgolion neu golegau ac aelodau o staff ysgolion neu golegau

Cyfres yr haf, 2018 i 2023

Blwyddyn	Cosbau a roddwyd i staff ysgolion neu golegau	Cosbau a roddwyd i ysgolion neu golegau
2018	20	10
2019	15	5
2020	[s]	0
2021	0	0
2022	20	[s]
2023	15	[s]

Ffynhonnell: Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru

Rhoddwyd 15 cosb i 10 aelod unigol o staff ysgol neu goleg am gamymddwyn yn haf 2023. Fe gafodd y rhan fwyaf o unigolion oedd wedi cyflawni trosedd un gosb, ond mewn rhai achosion fe gafodd dwy gosb eu rhoi am un drosedd. Y drosedd camymddwyn mwyaf cyffredin gan staff oedd rhoi cymorth amhriodol i ymgeiswyr. Rhybudd ysgrifenedig oedd y gosb fwyaf cyffredin i staff.

Rhoddwyd llai na phum cosb i ysgolion a cholegau yn haf 2023, yn debyg i 2022. Cafodd y cosbau eu rhoi oherwydd torri diogelwch a chymorth amhriodol i ymgeiswyr.

© (2023) Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu'r datganiad hwn ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.